Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Brechiad niwmococol ar gyfer plant o dan ddwy flwydd oed

**Mae'r daflen hon yn dweud wrthych chi am haint niwmococol a'r brechiad niwmococol ar gyfer babanod.**

## Beth yw haint niwmococol?

Mae haint niwmococol yn un o achosion mwyaf cyffredin llid yr ymennydd. Mae hefyd yn achosi heintiau clust (otitis media), niwmonia (haint yr ysgyfaint) a rhai afiechydon difrifol eraill.

Mae rhai plant yn cario bacteria niwmococol yng nghefn eu trwyn a'u gwddf. Maent yn trosglwyddo'r bacteria hyn yn hawdd i eraill trwy besychu, tisian a chyswllt agos.

Mae'r brechlyn niwmococol a roddir i blant (a elwir yn PCV) yn darparu amddiffyniad da rhag haint niwmococol.

Nid yw'r brechlyn hwn yn amddiffyn rhag llid yr ymennydd a achosir gan facteria neu feirysau eraill, felly mae angen i chi wybod yr arwyddion a'r symptomau i edrych amdanynt.

**Sganiwch fi i fynd i wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru**

**! Gall y symptomau ymddangos mewn unrhyw drefn ac efallai na fydd rhai'n ymddangos o gwbl. Edrychwch ar y llun isod am y symptomau.**

### Babanod a Phlant Bach

- Tymheredd uchel, dwylo a thraed oer
- Gwrthod bwyd a thaflu i fyny
- Cwynfanllyd, ddim yn hoffi cael eu trin
- Cysglyd, llipa, ddim yn ymateb
- Anadlu'n gyflym neu rochian
- Croen blotiog golau. Smotiau neu frech (gweler y prawf gwydr)
- Crïo'n anarferol, griddfan
- Y ffontanél (man meddal) yn dynn ac wedi chwyddo
- Gwddw stiff, ddim yn hoffi goleuadau llachar
- Ffitiau

Efallai na fydd gan fabanod ifanc iawn dwymyn. Gallai eu tymheredd fod yn normal neu'n isel.

Ffynhonnell: © meningitisnow.org

## Beth ddylwn i ei wneud os byddaf yn amau llid yr ymennydd?

Os yw eich plentyn yn sâl ac yn gwaethygu, peidiwch ag aros am frech oherwydd gall y symptomau ymddangos mewn unrhyw drefn ac efallai na fydd rhai'n ymddangos o gwbl. Rhaid cael cymorth meddygol ar frys. Os nad ydych chi'n gallu cysylltu â'ch meddyg, neu os ydych chi'n dal i bryderu ar ôl i chi gael cyngor, dilynwch eich greddf ac ewch i adran damweiniau brys eich ysbyty agosaf.




## Y prawf gwydr ar gyfer llid yr ymennydd

Mae brech sydd ddim yn pylu o dan bwysau'n arwydd o septisemia meningococol (gwenwyn yn y gwaed).

- Pwyswch ochr gwydr clir yn gadarn yn erbyn y croen.
- Gall smotiau neu frech (neu'r ddau) bylu i ddechrau.
- Daliwch i gadw llygad.
- Mae tymheredd uchel gyda smotiau neu frech (neu'r ddau) sydd ddim yn pylu dan bwysau yn argyfwng meddygol.
- Os yw eich plentyn yn sâl ac yn gwaethygu, rhaid cael cymorth meddygol ar unwaith.
- Ar groen tywyll, gall y smotiau neu'r frech fod yn fwy anodd eu gweld.

Mae llawer o arbenigwyr meddygol bellach yn defnyddio'r term sepsis yn lle septisemia.

## Pryd mae'r brechiad niwmococol yn cael ei gynnig?

Cynigir y brechlyn niwmococol i blant ochr yn ochr â'u brechiadau plentyndod arferol eraill pan fyddant yn 16 wythnos oed ac eto yn 12 i 13 mis am amddiffyniad hirdymor.

## Sut byddaf yn gwybod ei bod yn amser am frechiadau fy mhlentyn?

Mae plant yn derbyn apwyntiad i fynd i gael eu brechiad niwmococol pan maent wedi cyrraedd yr oedran priodol. Mae'r rhan fwyaf o feddygfeydd a chanolfannau iechyd yn cynnal clinigau babanod neu frechu arbennig.

## Beth sy'n digwydd yn yr apwyntiad?

Bydd y nyrs neu'r meddyg yn esbonio'r brechiad ac yn ateb eich cwestiynau. Mae babanod yn cael y brechiad yn y glun. Mae plant dros 12 oed yn cael pigiadau yn rhan uchaf y fraich fel rheol.

## Oes posib rhoi'r brechiad os yw fy mhlentyn yn sâl ar ddiwrnod yr apwyntiad?

Os oes gan blentyn fân salwch heb dymheredd uchel, fel annwyd, dylai gael y brechiad fel arfer. Os yw plentyn yn sâl gyda thymheredd uchel ar ddiwrnod rhoi'r brechiad, rhaid oedi nes ei fod yn well.

## Oes unrhyw blant na ddylai gael y brechiad?

Ychydig o resymau sydd dros beidio â brechu plant.

**Alergeddau**

Mae'r rhan fwyaf o bobl ag alergeddau yn gallu cael y brechlyn heb gael problemau.

Ni ddylid rhoi'r brechlyn i unigolyn sydd wedi cael adwaith difrifol (sy'n peryglu bywyd) i:

- ddos blaenorol o'r brechlyn, neu
- gynhwysyn yn y brechlyn.

Siaradwch â'r person sy'n rhoi'r brechlyn i'ch babi os yw'ch babi wedi cael adwaith alergaidd difrifol i'r brechlyn neu'r cynhwysion yn y gorffennol.

**Os:**

- oes gan eich plentyn anhwylder gwaedu (er enghraifft hemoffilia, pan nad yw eu gwaed yn ceulo'n iawn),
- yw eich plentyn wedi cael ffit nad yw wedi'i achosi gan dwymyn, neu
- oes gan eich plentyn broblem gyda'u system imiwnedd

siaradwch â'ch meddyg, nyrs y practis neu ymwelydd iechyd cyn i'ch plentyn gael brechiad.

## Beth os byddaf yn colli'r apwyntiad?

Dylech ganslo apwyntiad ymlaen llaw os nad ydych yn gallu cyrraedd. Os byddwch yn methu apwyntiad neu'n gorfod oedi gyda'r brechiad, gwnewch apwyntiad newydd cyn gynted â phosib. Os yw eich plentyn dan ddwy flwydd oed, mae posib rhoi'r brechiad niwmococol o hyd, ond bydd eich plentyn heb warchodaeth am gyfnod hirach.

**! Cofiwch, mae'n bwysig cael unrhyw frechiad sydd wedi'i golli. Os yw eich plentyn wedi colli brechiad ac os yw'n h ˆyn na'r oedran a argymhellir, siaradwch gyda'ch meddyg teulu, nyrs y feddygfa neu'r ymwelydd iechyd.**

## Oes gan y brechiad unrhyw sgil-effeithiau?

Mae miliynau o ddosys o'r brechiad wedi cael eu defnyddio ac mae ganddo enw da am ddiogelwch. Weithiau gall plant gael coes neu fraich ddolurus lle rhoddwyd y pigiad. Bydd rhai'n datblygu lwmp bychan efallai lle rhoddwyd y nodwydd i mewn ac mae hyn yn normal a gall bara am rai wythnosau. Nid oes angen unrhyw driniaeth. Hefyd efallai y bydd plant yn cael tymheredd uchel, gallant fod yn anesmwyth ac efallai na fyddant eisiau bwyta llawer.

Os oes gan eich plentyn dymheredd uchel ac os yw'n ymddangos yn sâl, mae posib rhoi hylif paracetamol iddo. Darllenwch y cyfarwyddiadau ar y botel yn ofalus a rhoi'r dos a'r cryfder cywir i'ch plentyn ar gyfer ei oedran.

**! Os ydych yn bryderus am eich plentyn ar ôl y brechiad, dylech siarad â'ch ymwelydd iechyd, y meddyg neu nyrs y feddygfa.**

Os oes gennych gwestiynau neu bryderon ynghylch sgîl-effeithiau, gallwch ofyn i'r person sy'n rhoi'r brechlyn i'ch babi, ymweld â **111.wales.nhs.uk** (safle allanol) neu gysylltu â GIG 111 Cymru drwy ffonio **111**.

Gweler tudalen gefn y daflen hon am ragor o fanylion am:

- y brechlyn, sy’n cynnwys yr holl sgîl-effeithiau posibl, ac
- adrodd am sgil-effeithiau a amheuir trwy gynllun y Cerdyn Melyn.

Yn anaml, gall pobl gael adwaith difrifol yn fuan ar ôl brechu, sy’n achosi anawsterau anadlu a gall beri iddynt lewygu. Gelwir hyn yn adwaith anaffylactig. Gall ddigwydd hefyd gyda meddyginiaethau eraill a bwyd. Mae’r adweithiau hyn yn hynod o brin, ac yn effeithio ar lai nag un mewn miliwn o bobl. Mae staff sy’n rhoi brechiadau wedi’u hyfforddi i reoli’r adweithiau hyn.

Gall pobl sy’n cael adwaith anaffylactig gael eu trin yn llwyddiannus ac fel arfer maent yn gwella o fewn ychydig oriau.

# Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech mwy o wybodaeth, gallwch ymweld â **111.wales.nhs.uk** (safle allanol), siaradwch â'ch meddyg neu nyrs neu cysylltwch â GIG 111 Cymru drwy ffonio **111**.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am frechlynnau a gynigir yng Nghymru o **icc.gig.cymru/brechlynnau**

I gael rhagor o wybodaeth am y brechlyn, gan gynnwys ei gynnwys a'i sgîl-effeithiau posibl, ewch i **medicines.org.uk/emc** (safle allanol, Saesneg yn unig). Rhowch enw'r brechlyn yn y blwch chwilio. Gallwch hefyd weld y daflen i gleifion ar-lein.

Gallwch ddod o hyd i enw'r brechlyn yn **icc.gig.cymru/brechlynPCV**

Dylech roi gwybod am sgil-effeithiau a amheuir ar-lein yn **www.mhra.gov.uk/yellowcard** (safle allanol, Saesneg yn unig), drwy lawrlwytho ap y Cerdyn Melyn, neu drwy ffonio **0800 731 6789** (Dydd Llun i Ddydd Gwener, 9yb i 5yh).

I gael gwybod sut mae'r GIG yn defnyddio'ch gwybodaeth, ewch i **111.wales.nhs.uk/amdanomni/eichgwybodaeth** (safle allanol).

**Sganiwch fi i fynd i wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Gorffennaf 2025
© Ymddiriedolaeth y GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
ISBN 978-1-83766-633-1

## Further information

If you have any questions or want more information, you can visit **111.wales.nhs.uk** (external site), talk to your doctor or nurse, or contact NHS 111 Wales by calling **111**.

You can find out more information on vaccines offered in Wales at **phw.nhs.wales/vaccines**

To find out more about the vaccine, including its contents and possible side effects, go to **medicines.org.uk/emc** (external site). Enter the name of the vaccine in the search box. You can also see the patient leaflet online.

You can find the name of the vaccine at **phw.nhs.wales/PCVvaccine**

You should report suspected side effects online at **www.mhra.gov.uk/yellowcard** (external site), by downloading the Yellow Card app, or by calling **0800 731 6789** (Monday to Friday, 9am to 5pm).

To find out how the NHS uses your information, go to **111.wales.nhs.uk/AboutUs/Yourinformation** (external site).

**Scan me to go to the Public Health Wales website**

Crystal Mark 23599
Clarity approved by Plain English Campaign

July 2025
© Public Health Wales NHS Trust
ISBN 978-1-83766-633-1

See the back page of this leaflet for further details on:

- the vaccine, including all possible side effects, and
- reporting suspected side effects through the Yellow Card scheme.

Rarely, people can have a severe reaction soon after vaccination, which causes breathing difficulties and may cause them to collapse. This is called an anaphylactic reaction, and it can also happen with other medicines and food. These reactions are extremely rare, affecting less than one in a million people. Staff who deliver vaccinations are trained to manage these reactions.

People who have an anaphylactic reaction can be successfully treated and usually recover within a few hours.

## What if I miss the appointment?

You should cancel an appointment if you can't make it. If you do miss the appointment or have to delay the vaccination, make a new appointment as soon as possible. If your child is under two, pneumococcal vaccine can still be given, but your child will be without protection for longer.

**Remember, it's important to catch up on most missed vaccinations. If your child has missed a vaccination and is older than the recommended age, talk to your GP, practice nurse or health visitor.**

## Does the vaccine have any side effects?

Millions of doses of the vaccine have been given and it has a very good safety record. Children can sometimes get a sore leg or arm where the injection was given. Some may develop a small lump where the needle was put in. This is normal and may last some weeks. It does not need any treatment. They may also get a raised temperature (fever), seem unsettled and may not want to feed much.

If your child has a raised temperature and seems unwell, you can give them paracetamol liquid. Read the instructions on the bottle carefully and give your child the correct strength and dose for their age.

**If you are worried about your child after the vaccination you should speak to your health visitor, doctor or practice nurse.**

If you have any questions or concerns about side effects, you can ask the person giving your baby the vaccine, visit **111.wales.nhs.uk** (external site) or contact NHS 111 Wales by calling **111**.

## How will I know when my child's vaccinations are due?

Children are sent an appointment for their routine pneumococcal vaccine at the appropriate age. Most GP surgeries and health centres run special vaccination or baby clinics.

## What happens at the appointment?

The nurse or doctor will explain about the vaccinations and answer your questions. With babies, the vaccine is given by injection into the thigh. In children over 12 months old, injections are usually given into the upper arm.

## Can the vaccine be given if my child is unwell on the day of the appointment?

If your child has a minor illness without a fever, such as a cold, they should have their vaccinations as normal. If your child is ill with a fever on the day the vaccination is due, delay the vaccination until they have recovered.

## Are there any children who should not have the vaccine?

There are very few reasons why children cannot be vaccinated.

**Allergies**

Most people with allergies can have the vaccine with no problems.

The vaccine should not be given to anyone who has had a serious (life-threatening) reaction to:

- a previous dose of the vaccine, or
- any ingredient in the vaccine.

Speak to the person giving your baby the vaccine if your baby has had a serious allergic reaction to the vaccine or ingredients in the past.

**If your child:**

- has a bleeding disorder (for example haemophilia, where their blood does not clot properly)
- has had a fit not caused by a fever, or
- a problem with their immune system

speak to your doctor, practice nurse or health visitor before your child has any vaccination.


Source: © meningitisnow.org

## The glass test for meningitis

A rash that does not fade under pressure is a sign of meningococcal septicaemia (blood poisoning).

- Press the side of a clear glass firmly against the skin.
- Spots or a rash (or both) may fade at first.
- Keep checking.
- Fever with spots or a rash (or both) that do not fade under pressure is a medical emergency.
- If your child is ill and getting worse, get medical help immediately.
- On dark skin, the spots or rash can be more difficult to see.

Many medical experts now use the term sepsis instead of septicaemia.

## When is the pneumococcal vaccine offered?

Children are offered the pneumococcal vaccine alongside their other routine childhood vaccinations when they are 16 weeks old and again at 12 to 13 months for longer-term protection.

**! Symptoms may appear in any order and some may not appear at all. See below for symptoms.**

### Babies and toddlers

- Fever, cold hands and feet
- Refusing food and vomiting
- Fretful, dislike being handled
- Drowsy, floppy, unresponsive
- Rapid breathing or grunting
- Pale, blotchy skin. Spots or rash (see glass test)
- Unusual cry, moaning
- Tense bulging fontanelle (soft spot)
- Stiff neck, dislike bright lights
- Convulsions or seizures

Very young babies may not have a fever. Their temperature could be normal or low.

Source: © meningitisnow.org

## What should I do if I suspect meningitis?

If your child is ill and getting worse, do not wait for a rash as symptoms can appear in any order and some may not appear at all, so get medical help urgently. If you can't get in touch with your doctor, or are still worried after getting advice, trust your instincts and go to the emergency department of your nearest hospital.

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

GIG Cymru NHS Wales | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Pneumococcal vaccine for children under two years

**This leaflet tells you about pneumococcal infection and the pneumococcal vaccine for babies.**

## What is pneumococcal infection?

Pneumococcal infection is one of the most common causes of meningitis (an infection of the lining of the brain). It also causes ear infections (otitis media), pneumonia (infection of the lungs) and some other serious illnesses.

Some children carry pneumococcal bacteria in the back of their nose and throat. They easily pass these bacteria on to others by coughing, sneezing and close contact.

The pneumococcal vaccine given to children (known as PCV) provides good protection against pneumococcal infection.

This vaccine does not protect against meningitis caused by other bacteria or viruses, so you still need to know the signs and symptoms to look out for.

**Scan me to go to the Public Health Wales website**